# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 24 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(275)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 6 chwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 4 a 5 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Tynnwyd y cwestiwn yn ôl.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### 4 Dadl ar Araith y Frenhines

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.

**NDM5792 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2015/2016.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw'r Bil Cymru arfaethedig yn gweithredu yn llawn argymhellion y Comisiwn Silk trawsbleidiol ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu’r argymhellion llawn heb oedi.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 10 | 44 |

**Derbyniwyd Gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder ddychweliad y Bil Pwerau Ymchwilio, ffurf newydd ar y siarter fusnesu, fel y'i gelwir, a gafodd ei rwystro'n rheolaidd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn ystod Llywodraeth Glymblaid y DU; ac yn gwrthwynebu Llywodraeth y DU yn cael pwerau i fonitro data cyfathrebu unigolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 32 | 44 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â chynnig pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i'r Alban, neu sy'n cael eu cynnig i'r Alban.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 3 | 10 | 44 |

**Derbyniwyd Gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 10 | 44 |

**Derbyniwyd Gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y DU yn gwrthod cymal mwyafrif dwbl ym Mil Refferendwm yr UE a'r penderfyniad i atal pobl 16 a 17 oed rhag pleidleisio yn y refferendwm hwnnw.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 22 | 13 | 44 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5792 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2015/2016.

2. Yn gresynu at y ffaith nad yw'r Bil Cymru arfaethedig yn gweithredu yn llawn argymhellion y Comisiwn Silk trawsbleidiol ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu’r argymhellion llawn heb oedi.

3. Yn gresynu at y ffaith nad yw Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â chynnig pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i'r Alban, neu sy'n cael eu cynnig i'r Alban.

4. Yn gresynu at fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 3 | 10 | 44 |

**Derbyniwyd y Cynnig wedi’i ddiwygio.**

**5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.17

**NDM5790 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod gwerth darlledu neilltuol yn yr iaith Gymraeg a chyfraniad pwysig S4C o ran diogelu ein hiaith Gymraeg a chyfoethogi diwylliant Cymru;

2. Yn gwrthwynebu unrhyw doriadau pellach yng nghyllid S4C gan Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a allai fygwth dyfodol y sianel hon; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am bwysigrwydd cynnal annibyniaeth olygyddol, reolaethol a gweithredol S4C a'r angen am sail cyllid cynaliadwy i ddiogelu dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg.

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

## 7 Dadl Fer - Gohiriwyd tan 7 Gorffennaf 2015

**NDM5793 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Hofrennydd heddlu Dyfed-Powys: pam mae'r X99 yn darparu cefnogaeth hanfodol i ddiogelwch y cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.56

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 30 Mehefin 2015**